# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Ionawr 2017

Amser: 09.02 - 12.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3971

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Sue Phelps, Alzheimer's Society<br>Rachel Lewis, Age Cymru Wales<br>Kieron Rees, Cynghrair Cynhalwyr Cymru<br>Dr Victor Aziz, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion<br>Dr Jane Fenton-May, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol<br>Dr Les Rudd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sian Thomas (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Zoe Kelland (Dirprwy Glerc)<br><br>Stephen Boyce (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 604KB) Gweld fel HTML (364KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Ymchwiliad i strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia - sesiwn dystiolaeth 1 - Y Gymdeithas Alzheimer's

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Gymdeithas Alzheimer.
2.2 Cytunodd Cymdeithas Alzheimer i ddarparu nodyn gyda'i barn ar y materion penodol sy'n berthnasol i bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n datblygu dementia.

## 3 Ymchwiliad i strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia - sesiwn dystiolaeth 2 - Age Cymru a Cynghrair Cynhalwyr Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Age Cymru a Chynghrair Gofalwyr Cymru.
3.2 Cytunodd Age Cymru i ddarparu gwybodaeth am y cynllun Robin ym Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan.
3.3 Cytunodd Cynghrair Gofalwyr Cymru i ddarparu gwybodaeth am y cynllun Spice yn Abertawe.

## 4 Ymchwiliad i strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia - sesiwn dystiolaeth 3 - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu.

## 5 Ymchwiliad i strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia - sesiwn dystiolaeth 4 - Dr Les Rudd

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-16

6.1a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015-16.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Ymchwiliad i strategaeth genedlaethol ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddementia - trafod y dystiolaeth

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd gan Gymdeithas Alzheimer, Age Cymru, Cynghrair Gofalwyr Cymru, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 9 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â'i ymchwiliad 'Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan'

9.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â'i ymchwiliad 'Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan'.
9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ymateb yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.